Sustainable Development Commission

Healthy Futures

# Progress in Practice

## Prosiect Ynni Solar Ysbyty Bronllys

Ysbyty Bronllys yw'r ysbyty cyntaf yn y DU i osod paneli solar ar y to. Bydd hyn yn helpu i leihau llygredd a gollyngiadau carbon deuocsid, sy'n helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ac yn arbed arian i'r ysbyty.

### Crynodeb

Mae Ysbyty Bronllys ym Mhowys wedi gosod 485 o baneli ffotofoltäig (solar) ar y to. Drwy ddatblygu'r ffynhonnell ynni adnewyddadwy hon, mae Ysbyty Bronllys wedi lleihau ei ddefnydd o danwydd ffosil ac mae'n disgwyl y bydd yn dadleoli 19.5 tunnell o garbon deuocsid bob blwyddyn. Amcangyfrifir y bydd p·er solar yn diwallu 5% o anghenion ynni'r ysbyty. Golyga'r lleihad hwn yn y biliau ynni y gellir ailfuddsoddi adnoddau mewn effeithlonrwydd ynni, gan sicrhau budd parhaol i'r ysbyty ei hun a'r gymuned ehangach. Dengys cyfrifiadau fod y paneli ar ben eu hunain yn creu digon o ynni ar ddiwrnod braf i redeg yr ysbyty.

Defnyddiwyd arbenigedd a masnachwyr lleol i osod y paneli, gan ysgogi sgiliau lleol a bwydo yn ôl i'r economi leol.

Un o'r rhwystrau y mae Ysbyty Bronllys wedi ei oresgyn yw ymwybyddiaeth y cyhoedd. I ddechrau, nid oedd pobl leol wedi eu hargyhoeddi y byddai p·er solar yn gweithio mewn gwirionedd; fodd bynnag, o ganlyniad i'r fenter hon, mae sawl eiddo domestig wedi gosod paneli solar eu hunain.

Er mwyn cwmpasu'r gost gychwynnol o osod paneli ffotofoltäig, cydweithiodd Ysbyty Bronllys ag Asiantaeth Ynni Canol Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Powys i nodi cyfleoedd ariannu. Cafwyd arian gan Raglen Amcan 2 Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Rhaglen Fawr Arddangos Solar yr Adran Masnach a Diwydiant. Cydlynwyd y rhan hon o'r prosiect gan Asiantaeth Ynni Canol Cymru. Cafwyd cymorth gan Asiantaeth Ynni Canol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Garbon i godi ymwybyddiaeth am ynni ac i wella effeithlonrwydd ynni yn yr ysbyty, sydd wedi cyfrannu at leihau'r ynni a ddefnyddir, gan leihau gollyngiadau a sicrhau y gwneir arbedion ar filiau tanwydd.



### Pwyntiau dysgu allweddol:

- Gall y GIG arwain drwy esiampl. Gall dangos bod ynni solar yn ddewis posibl ysgogi'r boblogaeth leol i wneud yr un fath
- Anogwch y rhai hynny sy'n rhan o'r gwaith i weithio'n uniongyrchol gyda'i gilydd bob amser. Bydd hyn yn gwneud y sefyllfa'n eglur i bawb sy'n rhan o'r gwaith ac yn gwneud sefyllfa gymhleth yn fwy 'dynol' ac yn haws ei rheoli
- Mae prosiectau arloesol yn helpu i greu swyddi a sgiliau yn lleol

**Dywedodd David Masson, Prif Reolwr Ystadau a Gwaith Bwrdd Iechyd Lleol Powys:**

"Rydym yn falch iawn ein bod yn arloesi ynni adnewyddadwy ar gyfer sector iechyd y cyhoedd; mae'n ategu'r gwaith ar effeithlonrwydd ynni ac rydym yn edrych ymlaen at weld y paneli ffotofoltäig yn cynhyrchu trydan glân."

### Cysylltiadau a mudiadau sy'n ymwneud â'r prosiect:

Asiantaeth Ynni Canol Cymru http://www.powysenergy.org.uk/content/home.php; Bwrdd Iechyd Lleol Powys http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=501; Yr Ymddiriedolaeth Garbon http://www.carbontrust.com/; Yr Adran Masnach a Diwydiant http://www.dti.gov.uk/; Ysbyty Bronllys http://www2.netdoctor.co.uk/directory/hospitals/sh.asp?PID=503

### Cysylltwch â:

Jenny Lampard, Rheolwr prosiect ynni cymunedol, Asiantaeth Ynni Canol Cymru, Uned 7, Parc Eco Dyfi, Machynlleth, SY20 8AX, 01654 703064, info@mwea.org.uk / jenny.lampard@wmea.org.uk